# Swyddog Bwyd a Diogelwch - Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

Pecyn Recriwtio
(Cytundeb Parhaol)



www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

CYNGOR GWYNEDD

# Gweithio i'r Cyngor

Mae Gwynedd yn adnabyddus am ei harddwch naturiol, ond mae'r Sir yn unigryw ac amrywiol a'n huchelgais ni fel Cyngor yw gweld ein cymunedau a'n pobl yn ffynnu.

Mae'r Cyngor yn cynnig amodau gweithio apelgar, gyda deilydd y swydd yma â hawl i 28.5 diwrnod o wyliau'r flwyddyn, gwyliau banc, ynghyd â gwyliau ychwanegol wedi cyflawni cyfnodau penodol o wasanaeth.

Mae sicrhau cydbwysedd bywyd a gwaith yn bwysig iawn, ac mae Cyngor Gwynedd yn cynnig nifer o gyfleoedd gweithio'n hyblyg er mwyn helpu staff i daro cydbwysedd iach rhwng bywyd cartref a gwaith.

Fel aelod o staff y Cyngor, byddai cyfle i fanteisio ar amrywiaeth o hyfforddiant a chyrsiau perthnasol fel rhan o'n hymrwymiad i'ch datblygiad proffesiynol.

Byddech hefyd yn elwa ar nifer o fuddiannau pellach sydd ar gael o weithio i Gyngor Gwynedd. Mae rhagor o fanylion am y buddion o weithio i Gyngor Gwynedd i'w gweld ar **www.gwynedd.llyw.cymru/gweithio-i-ni**



CYNGOR GWYNEDD

www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

# Hysbyseb Swydd

## Swydd: Swyddog Bwyd a Diogelwch
## (Cytundeb Parhaol)
## £32,076 - £33,945 a chyfraniad pensiwn Llywodraeth Leol

Diolch am ddangos diddordeb mewn gwneud cais ar gyfer y swydd yma. Mae'n cynnig cyfle i unigolyn proffesiynol, brwdfrydig ac ymroddedig i ymuno gyda Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd.

Rydym yn edrych am rywun fydd yn cwblhau gwaith diogelwch bwyd, iechyd a diogelwch a iechyd cyhoeddus. Dylai ymgeiswyr fod ag addysg at o leiaf safon Ddiploma Uwch mewn pwnc gwyddonol neu berthnasol. Byddem yn croesawu ceisiadau gan unigolion sydd gyda thystysgrif uwch rheolaeth bwyd neu ddiploma Iechyd a diogelwch galwedigaethol neu gymhwyster gyffelyb. Bydd yr unigolyn yn rhugl yn y Gymraeg ar Saesneg.

Byddai profiad blaenorol yn y maes o fantais, ond byddwn yn cynnig hyfforddiant perthnasol i'r ymgeisydd llwyddiannus. Mae sgiliau cyfathrebu, cyfrifiadurol a llythrennedd da yn hanfodol.

Mae holl fanylion y swydd, manylion cefndirol eraill, a manylion am sut i ymgeisio i'w weld ar wefan y Cyngor **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi**

Os hoffech drafod y swydd yn anffurfiol, cysylltwch gyda Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Bwyd a Diogelwch) drwy e-bostio **bwyd@gwynedd.llyw.cymru** neu ffonio **01766 771000**. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.



CYNGOR GWYNEDD

www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

# Swydd Ddisgrifiad

## PWRPAS Y SWYDD

- Cyfrannu at weithredu polisïau'r Cyngor yn effeithiol ran gwarchod y cyhoedd a busnesau cyfreithlon drwy hyrwyddo safonau uchel o gydymffurfiaeth gyda rheoliadau gwarchod y cyhoedd ac ymarfer da.
- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydan ni yn ei wneud.

## CYFRIFOLDEB AM ADNODDAU (e.e. staff, cyllid, offer)

- Offer - Cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am sicrhau cyflwr derbyniol a diogelwch amrywiaeth o offer gan gynnwys offer amddiffynnol personol.
- Arian - Cyfrifoldeb am arian, er enghraifft, wrth brynu samplau bwyd.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

- Gorfodaeth deddfwriaeth sy'n disgyn islaw cylch gwaith Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd lle fo gan ddeiliad y swydd yr awdurdodiad a chymwysterau priodol.
- Darparu Cyngor i fusnesau, aelodau o'r cyhoedd ag awdurdodau / asiantaethau eraill.
- Yn benodol, bydd deiliad y swydd fel arfer yn ymgymryd â gwaith yn y meysydd iechyd cyhoeddus canlynol:
  - a) Hylendid Bwyd
  - b) Safonau Bwyd
  - c) Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle
  - ch) Afiechydon Heintus
  - d) Cyflenwadau Dwr Yfed
  - dd) Trwyddedu
- Lle fo angen, arwain ar un neu fwy o feysydd gwaith (fel gorfodaeth rheoliadau pysgod cregyn, afiechydon heintus, cyflenwadau dwr preifat, maes trwyddedu penodol neu brif gyswllt gyda'r Asiantaeth Safonau bwyd) a rhannu gwybodaeth berthnasol yn ymwneud ar bwnc i aelodau eraill o Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.
- Cwblhau rhaglenni gwaith ac arolygon sbesiffig gall olygu defnydd offer arbenigol.
- Lle fo angen, cymryd camau gorfodaeth statudol i ddelio gyda diffyg cydymffurfiaeth sylweddol, yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth swyddog gwarchod y cyhoedd a chymeradwyaeth gan Reolwr Gwarchod y Cyhoedd lle fo'n ymarferol bosib.



CYNGOR GWYNEDD

## PRIF DDYLETSWYDDAU (parhad)

- Cynorthwyo gydag archwiliadau cymhleth yn ymwneud a thwyll bwyd, labelu bwyd a threfniadau iechyd a diogelwch a trwyddedu busnesau.
- Ymateb i geisiadau am wasanaeth a chwblhau archwiliadau wedi ei rhaglennu oddi fewn targedau amser sydd wedi eu mabwysiadu gan y gwasanaeth.
- I gynorthwyo gyda mentrau cynghori ac addysgu busnesau.
- Ymateb yn gyflym ac mewn modd priodol i argyfwng, yn unol â chyfyngiadau awdurdodiad y deiliad.
- Ymgymryd ag asesiadau risg o ymarferion busnesau, cyflenwadau dwr preifat ac achosion afiechydon heintus cysylltiedig gan flaenoriaethu ymdrech fel fo'n briodol.
- Cymryd samplau ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys pysgod cregyn a dŵr, ar ran yr Awdurdod.
- Ymchwilio i achosion o afiechydon heintus. Gall hyn olygu mynychu sefyllfa glinigol.
- Cynrychioli'r Cyngor fel tyst mewn llysoedd barn.
- Cydymffurfio gyda gweithdrefnau a chanllawiau cyllidol y Cyngor gan gyfeirio'n arbennig at unrhyw ffioedd a dderbynnir.
- Goruchwylio gwaith aelodau eraill o staff megis myfyrwyr ac unigolion dan hyfforddiant, fel fo'n briodol.
- Cofnodi gwaith drwy'r dull(iau) sy'n ofynnol ac o fewn yr amserlen ddynodedig.
- Dirprwyo ar gyfer swyddogion eraill lle fo amgylchiadau yn mynnu hynny.
- Cyfrifoldeb am hunan ddatblygiad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.
- Gweithredu o fewn polisïau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data.
- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac i annog eraill i weithredu'n gadarnhaol tuag at leihau ôl-troed carbon y Cyngor.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall cyfatebol a rhesymol sy'n cyd-fynd â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i adrodd ar bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin.

## AMGYLCHIADAU ARBENNIG (e.e. angen i weithio oriau anghymdeithasol, trefniadau gwaith arbennig a.y.y.b.)

- Ar brydiau bydd gofyn i ddeiliad y swydd gynnal archwiliad mewn amgylchedd budur / annymunol.
- O bryd i'w gilydd bydd angen i ddeiliad y swydd weithio yn ystod oriau anghymdeithasol.
- Gall fod angen i'r deilydd gynorthwyo gyda cynllunio, gweithredu ac arolygu prosiectau ar gyfer cynnal neu wella iechyd a lles trigolion Gwynedd.






# Manylion Person

## Nodweddion Personol

**Hanfodol:**

- Pendantrwydd.
- Y gallu i weithio ar ben ei hun pan fo angen.
- Y gallu i weithio fel aelod o dîm.
- Y gallu i weithio o dan bwysau gwaith.
- Agwedd bositif.
- Diragfarn.
- Pwyllog.
- Gallu ymdopi gyda newid.
- Hyderus.
- Gonestrwydd.
- Ffitrwydd corfforol.
- Gallu gweithio i a chyrraedd targedau.
- Gallu ymdopi a sefyllfaoedd anodd.
- Agwedd hyblyg tuag at oriau gwaith, lleoliad a dyletswyddau.
- Bod yn fodlon i ennill y medrau a'r cymwysterau proffesiynol pellach.

## Cymwysterau a Hyfforddiant Perthnasol

**Hanfodol:**

- Diploma neu gymhwyster cyfatebol (Diploma Cenedlaethol Uwch, Tystysgrif Cenedlaethol Uwch neu Gymhwyster Cenedlaethol Galwedigaethol lefel 4 neu uwch) mewn pwnc gwyddonol neu berthnasol i'r swydd fel:
  - Tystysgrif uwch mewn rheolaeth bwyd, sydd wedi ei gydnabod gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd;
  - Diploma Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol NEBOSH.

NEU

- Gradd mewn pwnc gwyddonol.

**Dymunol:**

- Wedi cofrestru fel Ymarferydd Diogelwch Bwyd gyda Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd neu fel Swyddog Diogelwch Bwyd gyda Bwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban.
- Cymwysterau ychwanegol Iechyd yr Amgylchedd, yn arbennig mewn diogelwch bwyd a / neu iechyd a diogelwch.
- Profiad o weithio mewn maes iechyd cyhoeddus.

# Manylion Person (parhad)

## Profiad Perthnasol

**Hanfodol:**

- Y gallu i gyrraedd targedau a delio gyda chyfyngiadau amser.

**Dymunol:**

- Profiad o weithio yn y maes gorfodaeth o fewn awdurdod lleol.
- Wedi cynnal archwiliadau hylendid / Safonau bwyd eiddo risg uchel fel y mynnir gan God Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru).
- Profiad o fod yn archwilydd dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974.
- Ymhlygiad mewn gwaith rhagweithiol ac ymgyrchoedd hybu iechyd.

## Sgiliau a Gwybodaeth

**Hanfodol:**

- Sgiliau TG (e.e. MS Word, Excel).
- Trwydded yrru llawn.
- Sgiliau rhifyddeg a llythrennedd da.
- Sgiliau cyfathrebu da, llafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg ar Saesneg.
- Gallu i gynhyrchu adroddiadau cryno, clir a chywir.
- Gallu i ddelio yn effeithiol gyda newid a sefyllfaoedd deinamig.

**Dymunol:**

- Sgiliau TG uwch - defnydd meddalwedd arbenigol i gasglu / dadansoddi data a cynhyrchu adroddiadau.



# Manylion Person (parhad)

## Anghenion Ieithyddol

**Gwrando a Siarad - Lefel Uwch**
Gallu dilyn sgwrs neu drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg ar lefel broffesiynol a thrafod pynciau cyffredinol bob dydd yn y maes er mwyn cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn. Gallu darparu cyflwyniad wedi'i baratoi o flaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau arno drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg.

**Darllen a Deall - Lefel Uwch**
Gallu deall Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig safonol, ffurfiol ac anffurfiol. Medru casglu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau, drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg er mwyn cyflawni'r swydd.

**Ysgrifennu - Lefel Uwch**
Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig gyda hyder ar ffurf llythyr, adroddiad mwy manwl a thechnegol ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg. (Mae'n bosib cael cymorth i wirio'r iaith).

Cymraeg

# Proses Ymgeisio

I ymgeisio am y swydd, ewch i **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi**

Gofynnwn i chi adolygu y Swydd Ddisgrifiad a Manylion Person, a chwblhau eich cais yn unol â'r gofynion.

Ceisiadau i'w cyflwyno ddim hwyrach na 10am ar 8 Tachwedd 2024, gyda chyfweliadau i'w cynnal yn fuan wedi hynny.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses, cysylltwch â DesgAdnoddauDynol@gwynedd.llyw.cymru



CYNGOR GWYNEDD